# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5ed Gorffennaf, 2022 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adolygu trefniadau croesawu Cynghorwyr |
| **Pwrpas:** | Gofyn i aelodau'r Pwyllgor am sylwadau ar drefniadau croesawu yn dilyn Etholiad Mai 2022. |
| **Swyddog (ion) cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

## Adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

- **Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gyflwyno sylwadau ar y trefniadau Croesawu Cynghorwyr yn dilyn Etholiad 2022 er mwyn dysgu gwersi cyn etholiadau 2027.**

**2. CRYNODEB**

2.1 Tros y deunaw mis diwethaf mae aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi bod yn canolbwyntio ar ddatblygu trefniadau ar gyfer tymor y Cyngor newydd yn dilyn etholiadau mis Mai 2022. Bu cyfle i'r aelodau roi mewnbwn i'r trefniadau ar gyfer gwahanol elfennau, gan gynnwys sesiynau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r etholiadau, trefniadau'r diwrnod Croeso, rhaglen cyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant, a darpariaeth TG.

2.2 Rydym yn hynod o falch i ni dderbyn sylwadau cadarnhaol am y trefniadau, ond yn llwyr ymwybodol fod lle i wella o hyd. Fel sy'n arfer gennym, mae'n bwysig ceisio dal a chofnodi yr hyn aeth yn dda a'r hyn y dylid ystyried ei newid at y tro nesaf, a hynny tra mae'r cyfan yn parhau yn fyw yn ein cof. Nodir isod ambell sylw ynghylch y trefniadau fel man cychwyn i'r drafodaeth.

DIWRNOD CANLYNIADAU

2.3 Yn unol a'n trefniadau arfero, roedd y cyfrif a chyhoeddi'r canlyniadau yn digwydd yng Nghaernarfon a Dolgellau. Fel rhan o'r trefniadau, roedd y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn croesawu'r cynghorwyr newydd a sicrhau ein bod yn casglu y manylion angenrheidiol ganddynt er mwyn prosesu cyfeiriadau ebost, rhifau cyflog, ceisiadau cyfarfod ayyb, a hynny i gyd i ddigwydd o fewn 1 diwrnod gwaith i'r canlyniad.

2.4 Roedd y gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gyhoeddi'r canlyniadau ar y safle we, gyda'r wybodaeth ar gael yn hwylus fesul ward ac fel cyfanswm ar draws Gwynedd fesul plaid, a hynny yn fyw. Ar yr un pryd roedd negeseuon trydar yn diweddaru'r cyhoedd o'r canlyniadau.

2.5 Llwyddwyd i gwblhau'r cyfrif a chyhoeddi'r holl ganlyniadau erbyn 2 o'r gloch y prynhawn hwnnw, oedd yn berfformiad arbennig o dda ac yn gyflym iawn o gymharu â nifer o awdurdodau eraill. Roedd y wybodaeth hefyd yn glir fesul ward yng Ngwynedd, a modd ffiltro ar hynny yn hytrach na gorfod gweithio trwy un rhestr hir nad oedd mewn unrhyw drefn, fel rhai o awdurdodau eraill.

2.6 Rydym yn ymwybodol fod nifer fechan o negeseuon trydar wedi eu cyhoeddi cyn i'r safle we gael ei diweddaru, ac rydym wedi nodi hyn fel gwers i'r dyfodol.

2.7 Rydym hefyd yn ymwybodol fod rhai defnyddwyr heb fod yn diweddaru y dudalen canlyniadau, ac felly wedi nodi fod y canlyniadau heb eu cyhoeddi. Gallwn sicrhau fod cyfarwyddyd i gynorthwyo'r cyhoedd gyda hyn y tro nesaf.

DIWRNOD CROESO

2.8 Cynhaliwyd dau ddiwrnod croeso, ar y 10fed a'r 11eg o fis Mai eleni. Rhoddwyd gwahoddiad i'r holl aelodau fynychu un o'r ddau ddiwrnod. Roedd cyfuniad o Gynghorwyr oedd yn dychwelyd a chynghorwyr newydd yn y sesiynau ar y ddau ddiwrnod. Braf oedd cael croesawu 25 o gynghorwyr newydd. Llwyddo y mwyafrif i fynychu dros y ddau ddiwrnod, gyda 5 yn ymuno yn rhithiol. Bwriad y dyddiau oedd:

- ceisio cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i Gynghorwyr cyn i fusnes y Cyngor newydd ail gychwyn
- sicrhau fod pob Cynghorydd wedi arwyddo derbyn eu swydd a chael cyflwyniad i'r cod ymddygiad
- rhoi cyfle i Gynghorwyr gyfarfod Cynghorwyr eraill
- trefnu darpariaeth TG ar gyfer pawb

2.9 Yn sgil sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth, datblygwyd llawlyfr cryno i'r holl Gynghorwyr fel adnodd cyfeirlyfr i gael mwy o wybodaeth ac i'w gludo gyda hwy o'r dyddiau croeso. Bu aelodau'r pwyllgor hefyd yn cynorthwyo gyda blaenoriaethu'r wybodaeth i'w gyflwyno i Gynghorwyr ar ddechrau'r tymor newydd. Nid camp hawdd yw sicrhau y balans cywir yn hyn o beth. Law yn llaw â hyn, datblygwyd y Mewnrwyd Aelodau i fod yn haws i'w ddefnyddio ac fel man gwybodaeth i'r Cynghorwyr. Gwaith datblygol yw hwn, a gofynnwn i unrhyw un sydd â sylwadau pellach i wella'r mewnrwyd i adael i ni wybod. Bydd sesiwn hyfforddiant hefyd yn cael ei drefnu yn fuan.

2.10 Llwyddwyd i gynnig mynediad o bell i Gynghorwyr oedd yn dymuno hynny am y tro cyntaf ar y dyddiau croeso. Cafwyd sylwadau fod y cyfan wedi gweithio'n hwylus i'r rhai oedd wedi ymuno dros zoom.

2.11 Fodd bynnag, bu rhai heriau oedd angen eu goresgyn. Cafwyd problem cyswllt gyda'r wi-fi ar y dydd Mawrth, gyda nifer o Gynghorwyr wedi gorfod disgwyl yn hir am eu darpariaeth TG neu wedi gorfod gadael heb dderbyn eu cyfarpar. Addaswyd y trefniadau ar gyfer yr ail ddiwrnod a llwyddwyd i oresgyn y problemau. Dylid nodi hefyd fod y tîm TG wedi bod yn bresennol ar ddiwrnod cyfarfod cyntaf y Cyngor llawn er mwyn cynorthwyo cynghorwyr gydag unrhyw gwestiynau oedd yn codi.

RHAGLEN CYFLWYNO GWYBODAETH A HYFFORDDIANT

2.12 Cynhaliwyd 10 sesiwn rhithiol, 1 gan bob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth rhwng y 23ain o Fai, 2022 a'r 4ydd o Orffennaf,2022. Mae pob sesiwn wedi ei recordio a byddant oll yn cael eu gosod ar y Mewnrwyd Aelodau fel y gall unrhyw Gynghorydd nad oedd yn gallu bod yn bresennol eu gwylio, neu i unrhyw Gynghorydd arall gyfeirio nol atynt ar unrhyw adeg. Bu'r niferoedd a fynychodd y sesiynau hyn yn amrywiol iawn.

2.13 Ar yr un pryd mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal yn rhithiol hefyd yn unol â'r rhaglen waith oedd wedi ei chreu. Rydym yn ymwybodol fod blwyddyn gyntaf Cyngor newydd yn drwm iawn o ran gofynion ar yr holl Gynghorwyr, a'i bod yn falans anodd o ran sicrhau fod y wybodaeth angenrheidiol ar gael yn amserol i bawb.

DYSGU GWERSI

2.14 Yn gyffredinol, mae'r prif sylwadau sydd wedi eu cyflwyno ar gyfer dysgu gwersi i'r dyfodol fel a ganlyn:

- Amserlen.
    - Edrych os oes modd ymestyn yr amserlen ar gyfer y digwyddiadau cyntaf yn dilyn yr etholiad ee dyddiau croeso, cyfarfod blynyddol y cyngor llawn, cychwyn y cylch pwyllgorau ayyb, a hynny er mwyn caniatáu mwy o amser i weithredu yn y cefndir.

- Dyddiau Croeso.
    - Ystyried diwrnod penodol ar gyfer derbyn darpariaeth TG, neu drefn wahanol ar gyfer derbyn a dychwelyd darpariaeth TG, er i bopeth weithio'n hwylus ar yr ail ddiwrnod.
    - Ystyried diwrnod penodol i Gynghorwyr newydd yn unig, ond gyda'r angen i ystyried digwyddiad sy'n galluogi Cynghorwyr newydd i ddod i adnabod Cynghorwyr sy'n dychwelyd
    - Ehangu ar y ddarpariaeth mynediad o bell ar gyfer y dyddiau croeso
    - Ystyried grwpiau llai er mwyn galluogi mwy o sgwrs yn hytrach na chyflwyniadau.

- Cyflwyno gwybodaeth a hyfforddiant
    - Ystyried sut i flaenoriaethu'r wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno dros y cyfnod cyntaf yn bellach.